



# Ymylon Gwyllt Ymylon Gwell Gwynedd – Life on the Verge

## Mannau Gwyrdd Gwydn – Ymylon Gwyllt Ymylon Gwell

### Pwy all gymryd rhan?

- Unrhyw unigolyn neu grŵp - yn cynnwys cyngorau cymuned, grwpiau gwirfoddol, ysgolion a chlybiau. Yn amlwg ni all plant dorri'r glaswellt, ond gallant fod yn rhan o'r gwaith i weld os yw'r safle yn ddiogel. Gallai hyn fod yn wers fathemateg wych gyda llawer o fesur a chyfrif!

### Sut fedrai gymryd rhan?

- Byddwch chi fel unigolyn, grŵp cymunedol neu gyngor cymuned yn darllen drwy'r canllaw yma gan adnabod ymyl ffordd neu safle gwyrdd cyhoeddus y credwch sy'n addas i'w reoli fel cynefin gweirglodd.
- Siaradwch gydag unrhyw un lleol y credwch fedrai fod â diddordeb - er enghraifft y cyngor cymuned, grwpiau cymuned, trigolion lleol, gan ddangos y canllaw hwn iddynt
- Gallwn ni (Social Farms & Gardens a Chyngor Gwynedd) ddod acw i'ch neuadd bentref i roi sgwrs ac i siarad am eich prosiect
- Byddwn yn asesu'r ymylon ffordd, yn siarad efo'r cyngor cymuned, yn cael caniatâd gan yr Adran Briffyrdd neu berchennog tir/rheolwr arall ac yn dod i'ch helpu i ddyfeisio cynllun rheoli syml
- Os oes angen, byddwch chi (neu gynrychiolydd y grŵp) yn cwblhau ein hyfforddiant diogelwch Priffyrdd syml.
- Byddwn yn gweld os yw hi'n bosib newid y drefn dorri - neu ei dynnu yn gyfangwbl o'r contract
- Byddwn yn darparu'r holl arwyddion, offer a'r hyfforddiant sydd ei angen, yn darparu bagiau compost ac yn mynd a'r toriadau ymaith
- Byddwch yn parhau i reoli ymyl y ffordd gan gynnal arolygon syml i gofnodi'r cynnydd mewn bioamrywiaeth dros amser

### Faint o amser/ymdrech sydd angen ei roi?

Bydd angen i chi fynd ati yn fwriadol i reoli ymyl y ffordd o leiaf ddwywaith y flwyddyn a bydd hefyd beth amser ar y dechrau wrth i chi sefydlu. Fel rhan o'r Mannau Gwyrdd Gwydn, gofynnwn i chi gymryd rhan mewn peth gwaith gwerthuso hefyd.

### Pam na all y cyngor wneud y gwaith?

Mae'r cyngor eisoes yn rheoli amryw o ymylon cadwraeth sy'n cynnwys rhywogaethau blaenoriaeth. 'Rydym angen eich gwybodaeth leol chi i adnabod ardaloedd addas, ac i helpu i edrych ar eu holau.

### Beth os yw rhai pobl yn gwrthwynebu ac yn credu fod hyn yn rhywbeth blêr?

Dyna pam yr ydym yn rhoi cyngor a chymorth ar sut i ddewis man addas a sut i sicrhau bod pobl yn eich cymuned yn gwybod beth sy'n digwydd a pham. Er enghraifft, ni fyddai ymyl ffordd gaiff ei ddefnyddio yn eang gan blant i chwarae neu gerddwyr yn addas. Mae rhan o'r prosiect hefyd yn ymwneud â newid canfyddiadau. Yn aml, nid yw pobl yn gwybod pa mor werthfawr yw'r cynefin yma.

### **Sut i ddewis ymyl ffordd/man gwyrdd - gofynnwch y cwestiynau hyn**

- A ydyw o fewn parth 20mya - neu wedi ei wahanu o'r briffordd gan lwybr troed?
- Yn gyffredinol, nid yw'n cael ei ddefnyddio gan gerddwyr na phlant yn chwarae?
- A ydyw yn hen ddigon llydan i weithio'n ddiogel arno?
- Os yw'n fan gwyrdd o fath gwahanol i'r ardal o gwmpas canolfan gymunedol neu fynwent - a yw'n bosib cwrdd ag anghenion yr holl ddefnyddwyr - er enghraifft drwy gael ardal wedi ei thorri ac ochrau mwy gwyllt?

Unwaith y byddwch wedi adnabod ymyl ffordd addas posib neu fannau gwyrdd yn eich ardal dylech lenwi'r [ffurflen gyswilt yma](#) a'i hanfon at [sarah@farmgarden.org.uk](mailto:sarah@farmgarden.org.uk) neu [hywynwilliams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:hywynwilliams@gwynedd.llyw.cymru)

## **Dechrau Arni**

### **Pam tyfu Blodau Gwyllt ar ymylon ffyrdd?**

#### **Blodau gwyllt a gweiriau cynhenid**

Ers yr Ail Ryfel Byd, mae 97% o laswelltir y DU oedd yn gyfoethog o ran rhywogaethau wedi diflannu oherwydd arferion amaethu modern a datblygu trefol. Yn ystod yr amser yma mae niferoedd rhywogaethau y peillwyr, yn cynnwys y wenynen wyllt, wedi gostwng.

Gyda llai o alw amaethyddol ar ymylon ffyrdd na'r gweirgloddiau gallant fod yn lloches hanfodol i fywyd gwyllt Prydain, o bryfed i ymlusgiaid, mamaliaid ac adar. Mae ymylon ffyrdd yn darparu man gwerthfawr y gellir ei ddefnyddio, gan greu cynefin sydd wir ei angen i fywyd gwyllt.

Mae bron i hanner miliwn cilomedr o ymylon ffyrdd gwledig yn y DU, mae hyn yn hafal i hanner ein gweirgloddiau a glaswelltiroedd sy'n gyfoethog o ran blodau. Ar draws y DU, mae ymylon ffyrdd yn gartref i dros 700 math o flodau gwyllt ac yn gartref i lawer o flodau gwyllt cyfarwydd sydd bellach o dan fygythiad.

Nodyn am y gwahaniaeth rhwng gweirgloddiau darluniadol a glaswelltiroedd sy'n gyfoethog o rywogaethau cynhenid: Gallwch brynu pcedi o hadau 'blodau gwyllt' sy'n creu arddangosfa hardd o flodau caeau yd blynyddol mewn ychydig o fisoedd. Maent yn hyfryd i'w defnyddio mewn gwelyau yn yr ardd, ond yn gyffredinol nid ydynt yn cynnwys rhywogaethau cynhenid yr ydym eisiau eu hannog ar ymylon ein ffyrdd a gweirgloddiau sydd wedi cyd-esblygu gyda ein pryfed cynhenid, sydd yn bennaf yn flodau parhaol ac efallai ddim mor lliwgar! Nid oes gan gweirgloddiau gogledd Cymru yr un planhigion a chae yd traddodiadol yng Ngwlad yr Haf. Mae'r gwahaniaeth yn amlwg yn y lluniau isod.



*Gweirglodd darluniadol*  
*Credyd llun: Canva*



*Caeau Tan y Bwlch*  
*Credyd llun: Damien Hughes/NWWT*

## **Pryfetach**

Ydych chi wedi sylwi bod llai o bryfetach yn glynu ar sgrin-wynt y car ar ôl i chi fynd am dro i'r wlad, o'i gymharu ag ychydig o flynyddoedd yn ôl? Mae poblogaeth pryfetach yn diflannu o flaen ein llygaid.

Mae'r dirywiad yn dueddiad pryderus gan mai pryfetach yw congl-faen yr holl ecosystemau daearol, maent yn rhan hanfodol o'r cadwynni bwyd i fywyd gwyllt a bodau dynol. Bydd effeithiau dilynol dymchweliad poblogaeth pryfetach, yn llifo i fyny drwy'r gadwyn fwyd, gan gael gwared ar anifeiliaid uwch. A heb ecosystemau iach, nid oes unrhyw aer a dŵr glân. Mae pryfetach yn anhepgor wrth gynhyrchu bwyd, maent hefyd yn hanfodol i greu harddwch ein parciau, gerddi a chefn gwlad.

Ar draws y DU, mae mwy na 20,000 math o bryfetach, a byddai llawer ohonynt yn manteisio o gynefin naturiol ymyl ffordd o flodau gwyllt. Ymysg y pryfetach yma mae o leiaf 1,500 o fathau o beillwyr, yn amrywio o weny yn gacwn gwyllt, gwyfynod, gloŷnnod byw, gwenyn meirch, chwilod a phryfed hofran - ac fe aiff y rhestr yn ei blaen.

Bydd ymyl ffordd da yn cyflenwi ffynhonnell amrywiol o neithdar a phaill o'r Llygad Ebrill cyntaf ym mis Chwefror i'r Tamaid y cythraul olaf ym mis Medi. Mae Pys y Ceirw ar ben ei hun yn fwyd i dros 130 math o greaduriaid di-asgwrn-cefn.

## **Pobl**

Mae ymylon ffyrdd hefyd yn bwysig i bobl - os ydych yn cerdded, beicio neu yn gyrru - mae ymylon ffyrdd sy'n llawn blodau yn codi hwyliau pawb. Gyda'r newyddion drwg parhaus am yr hinsawdd a bioamrywiaeth - mae gweld ein blodau gwyllt cynhenid yn ffynnu yn gwneud i ni deimlo'n bositif - fel ein bod yn gofalu am natur - ac yn rhoi gobaith y gellir efallai troi'r llanw.

## **Creu Ymyl Ffordd o flodau gwyllt**

Byddwn yn eich helpu i ysgrifennu cynllun ar sut i edrych ar ôl a gwella ymyl y ffordd. Nid yw'n broses anodd a gallwch ddechrau arni drwy ddarllen y canllaw hwn.

Pan fyddwch yn dewis ymyl ffordd addas, gallwch gynnal arolwg syml i weld pa rywogaethau sydd eisoes yn tyfu yno.

Os mai dim ond cael ei dorri mae'r safle a heb gael ei wrteithio neu ail-hadu - gallai llawer o flodau gwyllt eisoes fod yn bresennol. Gelwir hyn yn - Cyfoethog ei Rywogaethau. Bydd safle fel hwn yn ymateb yn wirioneddol dda i ychydig o reolaeth - gallwch ei dorri a'i hel ddwywaith y flwyddyn a gwyllo'r blodau gwyllt yn ffynnu.

Ond os nad oes llawer o flodau gwyllt, neu fod y darn wedi ei ail-hadu gyda chymysgfa o weiriau cryf, bydd angen i chi wneud ychydig mwy o waith. Mae'r ffeithlun yma o Plantlife o gymorth mawr

<https://meadows.plantlife.org.uk/wp-content/uploads/2022/01/Create-a-meadow-poster-WELSH.pdf>

### **Dull 1: Gweithio i wella blodau gwyllt sydd eisoes ar y safle**

Dyma'r dull a ddymunir i lunio ymyl ffordd blodau gwyllt gan mai'r tueddiad yw bod hyn yn llai llafurus ac yn gweithio gyda'r fflora naturiol sydd eisoes yno. Yn aml, gall sawl rhywogaeth ddod i'r golwg a hwythau wedi bod yn gorwedd yn y pridd.

Defnyddiwch y dull yma os:

- Oes eisoes cymysgfa o blanhigion (nid dim ond gweiriau) –
- Os ydych yn cynllunio i wella ymyl ffordd sydd eisoes â blodau gwyllt ac yn bwriadu ei reoli'n dda eto.

Beth i'w Wneud: Yn ystod yr hydref (canol i ddiwedd mis Medi tan ddiwedd mis Rhagfyr); edrychwch os yw mwyafrif yr hadau wedi aeddfedu a chwmpo. Yna, torrwrch y llystyfiant ar lefel y ddaear. Y bwriad yw symud yr holl doriadau a gallwch wneud hyn wrth dorri neu eu gadael i sychu am ddiwrnod neu ddau i wneud pethau yn haws (rydych yn dynwared torri gweirglodd). Os ydych wedi torri'r glaswellt yn fuan yn yr hydref, gallwch barhau i dorri ymyl y ffordd tan ddiwedd mis Rhagfyr, sicrhewch bod yr holl doriadau yn cael eu symud. Gallwch ddewis creu ardal compost ar y safle, dan wrych neu goed cyfagos (sicrhewch nad yw'r toriadau yn chwythu i'r ffordd neu yn atal gwelededd).

### **Dull 2: Gostwng maetholion y pridd i roi cyfle i flodau gwyllt yn y dyfodol**

Mae'r dull yma yn ddefnyddiol os oes gennych ardaloedd mawr i'w rheoli ac os ydych eisiau gwella'r ymyl ffordd gyda blodau gwyllt. Mae angen edrych ar yr hirdymor gan y bydd yn gweithio dros nifer o flynyddoedd.

Defnyddiwch y dull yma os:

- Oes tyfiant glaswellt cryf ar ymyl y ffordd
- Mae ymylon y ffordd wedi eu torri yn rheolaidd am nifer o flynyddoedd gan adael y toriadau i bydru i'r ddaear
- Os nad oes lawer o dystiolaeth ar hyn o bryd o blanhigion heblaw am laswellt

Beth i'w Wneud:

- Mae'r dull yma angen i'r ymylon glaswellt gael eu torri gan hel y toriadau o leiaf deirgwaith yn ystod y tymor tyfu yn y flwyddyn gyntaf (efallai dwy flynedd ar briddoedd ffrwythlon iawn).
- Yn ddelfrydol dylid torri ym mis Ebrill, Gorffennaf a Medi neu unwaith fo'r glaswellt yn cyrraedd uchder o 15-20cm. Yn yr hirdymor mae hyn yn gostwng ffrwythlondeb y pridd yn sylweddol ac felly mae twf y glaswellt yn arafu a gostwng uchder y glaswellt, yn ei dro mae hyn yn caniatáu i flodau gwyllt dyfu (yn aml mae hadau eisoes yn y pridd).

Os ydych yn dymuno, gellid hefyd hau hadau ar ôl y flwyddyn gyntaf gan ei bod yn llai tebygol y byddant yn cystadlu gyda gweiriau cryfach y gwanwyn nesaf ac felly mae hyn yn rhoi gwell cyfradd o lwyddiant.

### **Dull 3 - Creu Ymyl Ffordd o flodau gwyllt o'r dechrau**

Yn aml, bydd pobl eisiau hau hadau i gael canlyniadau sydyn. Mae risg efo'r dull yma, weithiau nid yw'r hadau yn egino ac mae adar llwglyd yn eu bwyta! Ceisiwch ddod o hyd i ffynhonnell hadau /cyflenwr lleol gan y bydd y raddfa llwyddiant yn gwella yn arw.

Defnyddiwch y dull yma os:

- Yw ymyl y ffordd ddim yn dangos fawr o arwydd o amrywiaeth h.y. dim ond glaswellt sydd yno.
- Os ydych eisiau canlyniadau sydyn, neu eisiau creu cyflenwad da o hadau i'w defnyddio mewn man arall y flwyddyn nesaf.
- Os yw'n ymyl ffordd newydd ar safle adeiladu neu ffordd newydd.

Beth i'w Wneud:

- Mae'n hanfodol eich bod yn paratoi'r ddaear ac mae'r adeg o'r flwyddyn yn bwysig ar gyfer y dull yma. Bydd hau yn fwyaf llwyddiannus os ydych yn gwneud hyn yn ystod yr hydref (mis Medi - Hydref) neu yn y gwanwyn cynnar, mis Mawrth.
- Torrwyd y glaswellt mor isel ag y medrwch gan gribinio'r ddaear i dorri'r pridd i fyny ac i ddod â darnau moel i'r wyneb.
- Os yw'r pridd yn ddwfn neu'r glaswellt yn drwchus, efallai y byddwch yn penderfynu codi'r dywarchen a'i thynnu gan wedyn drin y pridd yn barod i hau.
- Cymysgwch y gymysgfa o hadau blodau gwyllt Prydeinig gyda thywod bras, gan wedyn eu gwasgaru dros yr ardal, unwaith y byddant ar y ddaear sefwch yn ysgafn ar yr hadau. Gallwch hefyd blannu bylbiau blodau neu blanhigion 'plwg'.
- Unwaith fo'r cyfnod blodeuo wedi dod i ben dylech aros tan fo'r hadau wedi datblygu gan syrthio ar y ddaear yn barod ar gyfer y flwyddyn nesaf, fel arfer bydd hyn ar ddiwedd yr haf/dechrau'r hydref, gan wedyn dorri a symud y toriadau

Y ffactor allweddol sydd ei angen i flodau gwyllt yw cynnal maetholion pridd isel (hy lefelau isel o ffosffad a nitrogen), mae hyn yn hollol groes i dyfu grawnfwydydd, silwair neu gnydau llysiâu. Mae priddoedd ffrwythlon yn ffafrio glaswellt glas toreithiog, dail tafol a danadl poethion; mae'r rhain yn blanhigion tal sy'n tyfu'n gyflym sy'n cystadlu ac yn curo blodau gwyllt eiddil am ofod a golau. Maent yn atal peillwyr rhag dod o hyd i'r blodau ac yn y pendraw yn eu tagu i gyd. Mae blodau gwyllt yn ffynnu mewn priddoedd efo maetholion isel ble fo glaswellt, danadl poethion a dail tafol yn tyfu ar raddfa llawer arafach.

## Arolygu

Gelwir ein canolfan cofnodion amgylcheddol lleol yng ngogledd Cymru yn Cofnod. Ei diben y cadw cofnodion am y mathau o rywogaethau a welir yn yr ardal hon. Dros amser gall hyn roi darlun o beth sy'n ffynnu a pha waith cadwraeth sydd angen ei flaenoriaethu.

Os ydych yn cofrestru ac yn cofnodi'r rhywogaethau ar eich safle byddai hynny o gymorth mawr. Mae rhestr cwmplen ar gael o rywogaethau yr ydych yn debygol o ddod o hyd iddynt ar laswelltir tir isel yng ngogledd orllewin Cymru. Mae'n well cynnal arolwg pan fo'r planhigion yn eu blodau - gan fod amseroedd blodeuo yn amrywio - gallech gynnal arolwg sawl gwaith rhwng mis Ebrill a mis Medi i gael darlun o beth sydd gennych yn tyfu ar eich ymyl ffordd.

Defnyddiwch i.d. taflen y ddôl wych yma o Plantlife i ddechrau arni:

[http://www.magnificentmeadows.org.uk/assets/pdfs/Meadow\\_ID\\_Leaflet.pdf](http://www.magnificentmeadows.org.uk/assets/pdfs/Meadow_ID_Leaflet.pdf)

Gallwch hefyd geisio defnyddio ap adnabod planhigyn fel [PlantNet](#) sy'n hwyl iawn ac yn hawdd ei ddefnyddio ac yn rhyfeddol o gywir.

## Rhywogaethau Ymledol

Mae rhywogaethau ymledol wedi esblygu mewn rhannau eraill o'r byd ynghyd â'u plâu a'u clefydau eu hunain. Nid oes ganddynt 'niche' ecolegol yma nac unrhyw blâu i'w cadw o dan reolaeth. Gallant lethu ein planhigion cynhenid a thra-arglwyddiaethau drostynt. Mae hi'n drosedd peri iddynt ledaenu ac mae hi yn bwysig iawn nad ydynt yn cael eu lledaenu yn anfwriadol drwy eu torri neu eu codi gan wasgaru darnau ohonynt. Y planhigion yr ydych yn debygol o ddod ar eu traws yn lleol sydd yn broblemus yw:

- Ffromlys chwarennog *Impatiens glandulifera*
- Crib y ceiliog - *Crocsmia x crocosmiiflora*
- Llysiau'r Dial - *Reynoutria japonica*

Gallwn roi cyngor i chi am gael gwared ar Ffromlys chwarennog a Chrib y ceiliog - ond mae'n well gadael i bobl broffesiynol i gael gwared ar Lysiau'r Dial.

## Iechyd a Diogelwch

Os ydych yn gweithio ar ymyl ffordd yna mae hi yn bwysig iawn eich bod yn rhoi ystyriaeth i faterion iechyd a Diogelwch. Efallai bydd aelod o'ch grŵp neu gyngor cymuned angen dilyn cwrs byr ar ddefnyddio arwyddion ar ymyl y ffordd a bydd angen i chi gwblhau'r cwrs ar-lein i sicrhau eich bod yn gwybod sut i weithio'n ddiogel ar ymyl y ffordd.

## Cydnabyddiaeth a deunydd darllen pellach

### Plantlife

Rhagarweiniad syml yw'r adnoddau hyn - os ydych eisiau edrych yn fanylach ar bwnc ymylon ffordd efo blodau a phlanhigion gwyllt yn gyffredinol dylech edrych ar adnoddau gwych Plantlife, sydd yn rhad ac am ddim.

- Plantlife Meadows Hub <https://meadows.plantlife.org.uk/>
- Plantlife Good Verge Guide – yn hawdd ei ddeall ond yn gynhwysfawr [https://www.plantlife.org.uk/application/files/7916/1191/6240/Road\\_verge\\_guide\\_2021\\_WEB.pdf](https://www.plantlife.org.uk/application/files/7916/1191/6240/Road_verge_guide_2021_WEB.pdf)
- Ysbrydolwyd y prosiect yma gan 'Life on the Verge in Devon' - prosiect partneriaeth rhwng DCC a'r Tarka Country Trust. Rydym wedi seilio'r adnoddau hyn ar y rhain - cewch ddarllen mwy am eu prosiect yma <https://www.tarkacountrytrust.org.uk/love-b-524226.html>

*Mae Mannau Gwyrdd Gwydn yn brosiect partneriaeth gwerth £1.27m sy'n cael ei arwain gan Social Farms & Gardens i dreialu systemau bwyd eraill sydd wedi'u hail-leoleiddio gan ddefnyddio cymunedau a'u manau gwyrdd fel y sbardun ar gyfer newid ledled Cymru tan fis Mehefin 2023. Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Raglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.*



# How to make a meadow with native wild flowers

Even if you only have a small area, you can enjoy a meadow full of native wild flowers. Your local wildlife will thank you for it. All you have to do is mow differently...

Choose an open, sunny area for your meadow, with no nettles or brambles. Then take a closer look in spring and summer – what's already growing there?

A good meadow can be home to more than 100 different grasses and flowers.

If your area is bare ground or has fewer than five wild flowers



©Lucy Chmura

If your area has more than five different wild flowers already



©Lucy Chmura


## CREATE a meadow

In late summer or early autumn, cut the grass short, create bare ground and seed the area

- You'll need a mower, strimmer or scythe and a rake to collect the mowings because if left, they will decompose and enrich the soil with nutrients. Wild flowers thrive in nutrient-poor soil.
- You can compost the mowings or create **habitat piles** to encourage other wildlife.
- Create at least 50% bare ground by raking vigorously or by using a hand scarifier that can be rented. **Larger areas** are best done with a harrow.
- If you have a larger area and know a local farmer, you can seed the area using **green hay**.
- Or you can buy native wildflower seeds from your local seed supplier. Double-check the seed is not sourced from outside the UK. Read 'Keeping the wild in wildflower' to find out more.
- Try mixing your seed with sand for easier spreading. Sprinkle and gently trample in. During dry spells, water if possible, but don't wash away the seeds!
- In the coming months, pull up any creeping thistle and dock, or cut the flower heads off before they set seed. These can spread fast and smother wild flowers.
- Don't worry if your meadow looks a bit plain in its first year. Many native perennials take a couple of years to establish.

## ENHANCE a meadow

If you already have some wild flowers present, simply follow the annual plan below to see even more flowers return over time



From the second year onwards follow the annual management plan